

## Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 2il o Orffennaf 2020.

- 1 Presennol Edward Evans (Cadeirydd) Richard Williams - Prenteg, John Jones - Garndolbenmaen, Delyth Evans, Manon Jones Evans - Pentrefelin, Amanda N Owen - Golan, Iddon Edwards, Gwenno Emlyn Huws - Penmorfa.
- 2 Ymddiheuriadau - Megan Lloyd Williams, Clifford Williams, Dylan Pritchard, Dafydd Thomas, Gwilym Evans, Huw Pritchard, Richard Parry, Anwen Humphreys.
- 3 Ddim yn bresennol- neb.
- 4 Datgan buddiant Edward Evans - Eitem rhif 8 Lloches Bws Garndolbenmaen.
- 5 Cywirdeb y cyn-gofnodion - 5/3/20 John Jones yn datgan eu cywirdeb ac Iddon Edwards yn eilio.
- 6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Mynwent Bethel - mae'r drysau newydd wedi cael eu gosod.

Llochesi Bws - gwaith glanhau wedi cael eu cwblhau.

Tai Bro Gwgan - derbyniwyd ateb gan Ian Roberts, Cynefin. Penderfyniad Cynefin yw mai ail rendro'r tai fydd yr opsiwn gorau. Mae cais wedi ei wneud i'w ariannu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Treflys - gwastraff mewn cilfach barcio wrth Bryn Derwen. Wedi eu glirio.

Pentrefelin - Dim golau stryd ar y pafin ar ôl mynd heibio Plas Gwyn i gyfeiriad Criccieth at Fynydd Du. Heb dderbyn ateb gan Adran Goleuo Stryd, Cyngor Gwynedd.

Llifogydd diweddar rhwng Prenteg a Charreg - hysbysfwrdd ddim yn gweithio. Derbyniwyd ateb yn nodi fod yr arwyddion matrices llifogydd dan sylw wedi profi yn eithaf trafferthus yn ddiweddar. Mae wedi cael ei

drwsio fwy nac unwaith. Mae'r Adran Priffyrdd yn edrych ymhellach i'r sefyllfa.

Arwyddion ail-gyfeirio traffig - dim arwyddion yn ystod gwaith ffordd o Garreg i droad Croesor. Priffyrdd Meirionnydd heb gael ei hysbysu fod 'na waith yn cymryd lle. Y drefn arferol mae'r Cyngor yn ei ddilyn yw rhoi hysbyseb yn y papur newydd, gyrru e-bost at y gwasanaethau brys a rhoi gwybod i awdurdodau eraill. Nid yw hyn yn digwydd mewn sefyllfa argyfwng. Rhan adolygu arwyddion, mae gan Gyngor Gwynedd 3 swyddog sydd yn gyfrifol am fonitro gwaith.

Prenteg - angen mwy o wybodaeth ynglŷn â'r math o blastig mae'n bosib ail-gylchu. Derbyniwyd gwybodaeth gan Dîm Gwastraff ac Ail Gylchu Cyngor Gwynedd gyda manylion y math o blasting y gellir ei ail-gylchu. Wedi ei yrru at Gwilym.

Penmorfa - wal tu allan i dŷ yn y pentref wedi dymchwel a'r cerrig wedi eu gadael ar y pafin. Cysylltodd yr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru gyda'r perchennog. Cafwyd addewid y buasai yn eu clirio. Ni ddigwyddodd hyn. Felly ar y 24ain o Fawrth gyrrwyd criw priffyrdd yno i ddiogelu'r safle.

## 7 Llyfrau Ariannol

Cyflwynwyd copi o'r cyfrifon i'r Cyngor a'r rhan gyntaf o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer yr archwiliad allanol.

Taliadau yn fwy o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Hyn yn rhannol oherwydd cynnydd ym mhris yswiriant ac aelodaeth Unllais. Gwariwyd ar hysbysebu i lenwi 2 sedd ar y Cyngor. Talwyd anfoneb o £2082 ar gyfer gwaith a gwblhawyd yn y flwyddyn flaenorol (2018 -2019),

Derbyniwyd y cyfrifon gan y Cyngor. Bydd y Ffurflen Flynyddol yn cael ei yrru at y Cadeirydd i gael ei arwyddo.

## 8 Llochesi Bws

Derbyniwyd 2 bris am wneud y gwaith atgyweirio.

Contractwr 1 £3055.28

Contractwr 2 £2107.20

Penderfynwyd derbyn pris Contractwr 2 ar yr amod fod ganddo yswiriant atebolrwydd.

Amanda N Owen yn cynnig a John Jones yn eilio.

## 9 Adroddiad Pentrefi

Golan, Cwm Pennant, Cwmystradllyn - gwastraff coed (wood chippings) wedi ei adael. Clerc i gysylltu gydag Adran Gorfodaeth Stryd, Cyngor Gwynedd.

### Garndolbenmaen

Cyngor Gwynedd heb dorri'r gwair o Creiglys i Tyn y Ffridd a Garreg Gron i Glan y Gors. Mae trigolion lleol wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd a chael ar ddeall na fydd y gwair yn cael ei dorri oherwydd ei fod yn lôn breifat. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i gael cadarnhâd o hyn ac i holi pwy sy'n gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw ar y lôn.

### Tai Bro Gwgan

Plastr yn disgyn i ffwrdd. Clerc i gysylltu gyda Grŵp Cynefin.

Er gwybodaeth

- Gwaith wedi cychwyn o Villa Pantana at y lôn fawr.
- Gwaith clirio coed yng Nghapel Isaf yn cychwyn ar y 6ed o Orffennaf.

### Penmorfa

Er gwybodaeth -

- Gwaith ail wneud y goleuadau stryd wedi digwydd.
- Camera cyflymder - polyn oedd yn ei ddal wedi cael ei dynnu lawr.

### Pentrefelin/Treflys

Angen torri gwair ar ochrau'r lonydd yn ardal Treflys. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

## Bryncir

Canolfan ailgylchu wedi ail agor. Clerc i holi Cyngor Gwynedd pam nad yw faniau bach yn cael mynd i'r canolfannau ar hyn o bryd.

10 UFA- dim

11 **Gohebiaeth**

Llythrau gan Gyngor Gwynedd - Bwletin Gyda'n Gilydd 11/6/20 ac 25/6/20.  
Adran Priffyrdd - Cau amryw o ffyrdd yn ardal Dwyfor ar gyfer gwaith ail-wynebu.

Adran Priffyrdd - Cau ffordd Cwmystradllyn - Prenteg.

### **Ychwanegwyd**

Llythyr Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn gofyn am farn y Cyngor Cymuned ynglŷn â be ddylai'r Cyngor ei wneud yn ymarferol i leddfu pryderon lleol wrth i'r economi ail agor. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried paratoi taflen yn amlinellu'r rheolau sy'n bodoli yng Nghymru a gofyn i berchnogion meysydd carafanau/atyniadau awyr agored rannu hwn gydag ymwelwyr.

### Gohebiaeth ychwanegol

- a Unllais Cymru - Adroddiad Mike Parry Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- b Unllais Cymru - Newyddion coronafeirws.
- c Menter Môn - Arloesi Cymru Wledig gwaith ymchwil ar sefyllfa yng nghymunedau Gwynedd yn ystod y coronafeirws. Holiadur i'w lenwi erbyn 15/6/20. Rhannwyd 10/6/20.
- ch Mantell Gwynedd - Bwletin Rhif 3.
- d Mantell Gwynedd - Pecyn Gwybodaeth Ail Agor.
- dd Parc Cenedlaethol Eryri - Llacio Cyfyngiadau COVID19.

12 Cynllunio

Rhestrau - dim.

### Ceisiadau Cynllunio

Gorffennaf - dim

13 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian- dim.

Monitro'r gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 237.99
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 61.63
Tudur Puw	=	£ 520.00
Aled Jones	=	£ 190.00

Derbyniadau: - Pritchard & Griffiths £110.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,835.18 Cyfredol £16,835.18

14 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Llyfrau Ariannol
- Llythyr Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd

Gwefan - Cofnodion mis Mawrth.

## Atodiad 1

Diweddariad o waith y Cyngor Cymuned a rannwyd gyda'r Cynghorwyr yn ystod y lawrglo.

### Materion Ebrill 2020

#### Mater

#### Pentrefi

Garndolbenmaen

#### Sefyllfa Presennol

Tai Bro Gwgan - Derbyniwyd ateb gan Ian Roberts, Cynefin. Penderfyniad Cynefin yw mai ail rendro'r tai fydd yr opsiwn gorau. Mae cais wedi ei wneud i'w ariannu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Lloches Bws ger y Neuadd - Dechrau mis Ebrill, cysylltodd y Cyngorydd Stephen Churchman i ddweud fod rhan o'r to yn disgyn. Bu John a Bryn Pritchard, Adeiladwr yno a chanfod fod y plastr ar y to yn beryg. Gosodwyd ffrâm o amgylch y lloches i rwystro trigolion rhag ei ddefnyddio. Mae angen rhoi to newydd ar y lloches. Diolch i John.

Gofynnwyd i 3 adeiladwr am bris i wneud y gwaith. Derbyniwyd pris gan un a byddaf yn diweddar chi ar y sefyllfa ar ôl derbyn y prisiau gan y ddau arall.

Penmorfa

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Yng nghyfarfod mis Mawrth, derbyniwyd llythyr gan Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnig i'r Cyngor Cymuned wneud cais am becyn cychwynnol i greu lleoedd lleol ar gyfer natur yn yr ardal. Roedd tri phecyn gwahanol ar gael - gardd pili pala, gardd ffrwythau a gardd bywyd gwyllt. Penderfynwyd gwneud cais am becyn ar gyfer Cae Chwarae Penmorfa. Diolch i Iddon am ei gymorth i gwblhau'r ffurflen gais.

Dechrau Ebrill, derbyniwyd e-bost gan Cadw Cymru'n Daclus yn dweud ein bod wedi cael pecyn gardd ffrwythau, ar yr amod ein bod wedi cael tystiolaeth o ganiatâd perchennog y tir. Cysylltwyd gyda Rhodri Edwards (Fields in Trust) ac roedd yn

hapus i roi caniatâd ar yr amod nad oedd pryddles yn cael ei osod.

Yr amodau cyffredinol sydd wedi cael eu gosod yw -

- Cwblhau'r prosiect erbyn Mawrth 2021;
- Rhoi datganiad am y prosiect yn y wasg leol;
- Ar ôl cwblhau, rhoi gwybodaeth fonitro i Lywodraeth Cymru.

Oherwydd y sefyllfa bresennol, bydd dyddiad cwblhau'r prosiect yn cael ei newid.

Torri gwair Cae Chwarae- oherwydd problemau iechyd nid yw Aled yn gallu gweithio yn ystod y cyfnod yma. Mae Gwenno a'i theulu am wneud y gwaith. Dwi ddim yn sicr os ydy Iddon wrthi hefyd. Diolch i chi. Os fydd y sefyllfa yn parhau, hwyrach bydd rhaid ystyried cael contractwr arall i wneud y gwaith dros dro.

Llochesi Bws  
Garndolbenmaen,  
Pentrefelin, Golan a  
Bryncir  
**Mynwentydd**

Mae Cwmni Waterworks Criccieth wedi glanhau'r llochesi bws.

Trwsio drysau Siediau Mynwent Bethel -

Derbyniwyd 2 bris am wneud y gwaith. Pris 1 - £520 a Phris 2 £912.80. Ar ôl derbyn y trydydd pris, byddaf yn cysylltu gyda'r Cadeirydd, Is-gadeirydd a Chynghorwyr Golan.

Bin Mynwent Bethel - Yn ystod ymweliad a'r

Fynwent, sylwodd y Cadeirydd fod y bin angen ei wagio. Cysylltwyd gyda Chwmni Veolia i holi oeddent yn dal i wagio biniau yn ystod y cyfnod yma.

Derbyniwyd ateb yn dweud fod y Cwmni wedi rhoi 'stop' ar y cyfrif a'r gwasanaeth am nad oeddem wedi talu'r anfonebau. Nid yw'r Cyngor Cymuned wedi derbyn anfonebau gan y Cwmni.

Ym mis Ionawr, cysylltwyd gyda Rhys Jones, cynrychiolydd ardal. Addawodd y byddai'n cysylltu gyda'r Adran Cyllid i ofyn iddynt yrru anfonebau i mi. Gyrrwyd gopi o'r e-bost atynt. Ar y 1af o Fai, derbyniwyd yr anfonebau ganddynt. Ymddengys o'r anfonebau, nad yw'r bin wedi cael ei wagio ers mis Mawrth.

Ar y 4ydd o Fai, cysylltwyd ar y ffôn gyda'r Cwmni a holi oedd yn bosib ail gychwyn gwagio'r bin, o gofio nad bai'r Cyngor Cymuned oedd peidio talu am y gwasanaeth. Mae'r Cwmni wedi gaddo cysylltu'n ôl gyda mi. Mae'r trafodaethau yn parhau.

Torri gwair Mynwentydd - Mae'r Contractwyr wedi cychwyn ar y gwaith. Mynwent Bethel, Prenteg ac Ynyscynhaearn wedi cael eu torri.

Bin Mynwent Prenteg - Mae dipyn o bridd wedi casglu yng ngwaelod y bin. Ar gais y Cadeirydd, gofynnwyd i'r Contractwr am bris i glirio hwn.

## **Gwefan**

Mae'r wefan wedi cael ei ddiweddarau gyda'r wybodaeth ganlynol -

- Dyddiadau cyfarfodydd 2020 - 2021;
- Datganiadau Buddiant Cyngorwyr 2019 - 2020;
- Manylion Cyngorwyr yn cynnwys ymlyniad gwleidyddol ac aelodaeth o is-bwyllgorau;
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth Aelodau o'r Cyhoedd;
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth Staff ac Aelodau.

## **Llwybrau Cyhoeddus**

Yn ystod y cyfnod yma, mae mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r llwybrau a gall hyn olygu fod hi'n anodd i'r contractwyr gadw pellter petai rhywun yn cerdded ar lwybr. Yn dilyn sgwrs gyda'r Cadeirydd, penderfynwyd gofyn i'r Contractwyr osod arwydd fod y llwybr wedi cau ar gyfer torri gwair. Cysylltwyd gyda'r Contractwyr i ofyn iddynt wneud

hyn. Paratowyd a gyrrwyd poster pwrpasol iddynt ddefnyddio.

### **Gohebiaeth**

Cyngor Gwynedd

- Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd.
- Cyfeirlyfr Ardal Eifionydd/Gogledd Meirionnydd gyda manylion cymorth sydd ar gael yn lleol i drigolion mwyaf bregus. Manylion ar gael ar safle we Cyngor Gwynedd.
- Rhybudd cau ffordd ddi-ddosbarth gyferbyn ag Efail, Glandwyfach. Rhannwyd 7/5/20.
- Nodyn briffio Mai 4 2020. Tîm Cymorth COVID19.

Unllais Cymru

- Trefniadau ar gyfer angladdau ac amlosgiadau.
- Canllawiau ar gyfer cyfarfodydd o bell. Rhannwyd 27/4/20.

Cyfoeth Naturiol Cymru Gwaith i hyrwyddo amgylchedd Cymru yn parhau yn ystod yr argyfwng presennol.

### **Ceisiadau Cynllunio**

**C20/0218/36/LL** Cerrig Pryfaid Golan. Cais i ddymchwel adeilad allanol presennol a chodi estyniad ar gyfer darparu llety ar ffurf ystafell gysgu a chyfleusterau atodol. Dim gwrthwynebiad.

**NP2/16/T159B** - Tŷ Mawr Prenteg LL49 9TE Dymchwel adeilad allanol, adeiladu estyniadau unllaw a deulawr ynghyd a newidiadau. Dim gwrthwynebiad.

**NP2/16/454A** Tir Cefn Coch Isaf, Cwmystradllyn LL51 9AZ Adeiladu adeilad amaethyddol, storfa slyri a chreu mynedfa cerbydau. Mynegi pryder y bydd y sied yn weladwy o bob cyfeiriad, maint y storfa slyri - a yw'n ddigonol? (Datgan Buddiant Gwilym Evans, Megan Lloyd Williams - ffurflenni i'w harwyddo yn y cyfarfod nesaf)

### **Materion Ariannol**

**Ceisiadau am arian**

Tŷ Gobaith Hosbis Plant

**Biliau i'w talu**

Cyflog Clerc = £ 237.99  
Ffôn = £ 10.00  
Cyfrifiadur = £ 15.00  
HMRC = £ 61.63

	Zurich	= £1099.41
	Waterworks	= £ 240.00
	Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth £35 y flwyddyn debyd uniongyrchol.	
<b>Derbyniadau</b>	Pritchard & Griffiths	£ 225
	Cyngor Gwynedd Praesept	£9000
<b>Balansau Cyfrifon Banc</b>	Cadw	£16,835.18
	Cyfredol	£15,839.29

## Materion Mai 2020

### Mater

#### Pentrefi

Garndolbenmaen

### Sefyllfa Bresennol

Lloches Bws ger y Neuadd Derbyniwyd 2 bris ar gyfer y gwaith o adnewyddu'r lloches bws.

Penmorfa

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Derbyniwyd e-bost gan Cadwch Cymru'n Daclus yn hysbysu'r Cyngor y bydd rhywfaint o'r gwaith dechreuol ar greu gardd ffrwythau yn y Cae Chwarae yn cychwyn ym mis Mehefin. Mi fydd unrhyw weithgaredd yn cael ei wneud trwy ddilyn y rheol o gadw pellter cymdeithasol o 2 fedr.

Prosiect Gerddi Cymunedol Eryri Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi derbyn arian o gynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles (ENRaW) a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Parc yn cynnig grantiau ar gyfer ardd les neu le tyfu bwyd. Mae ganddynt arian ar gyfer 2 - 3 ardd. Mae cais wedi cael ei wneud ar ran Cae Chwarae Penmorfa.

Canclwm (Japanese Knotweed) Mae Canclwm wedi ymddangos yn y Cae Chwarae. Bydd hwn yn cael ei drin cyn iddo gael cyfle i ymledu.

Torri Gwair Mae Idris wedi cytuno gwneud y gwaith nes bydd Aled yn dychwelyd i'w ddyletswyddau.

Prenteg

Lôn at y Fynwent Derbyniwyd cwyn gan un o'r trigolion lleol, sy'n ymweld â'r Fynwent yn wythnosol, ynglŷn â chyflwr y lôn. Mae Gwilym wedi edrych ar y cyflwr a phenderfynwyd gall y mater gael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

### Mynwentydd

Bethel

Trwsio drysau siediau Mynwent Bethel Mae Tudur Puw wedi cytuno gwneud y gwaith.

Bin Mae'r gwasanaeth wedi ail gychwyn ers dydd Gwener 29ain o Fai.

Prenteg

Mae Idris am glirio'r pridd sydd yng ngwaelod y bin.

### **Llwybrau Cyhoeddus**

Llwybr rhwng Tyn Ffridd a Ffridd Newydd Polyn sy'n hongian y giât wedi pydru. Mae Clifford am dynnu'r giât oddi ar y bachyn. Bydd Cyngor Gwynedd yn adnewyddu'r polyn.

### **Gohebiaeth**

Cyngor Gwynedd

- Gwasanaeth Cynllunio a Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn).
- Ail rybudd cau ffordd ddi-ddosbarth dros dro. Hen ffordd yr A487 gyferbyn ag Efail, Glan Dwyfach, Garndolbenmaen. 06/07/2020
- Gyda'n Gilydd Cydweithio i helpu Cymunedau Gwynedd drwy'r argyfwng COVID-19.

Parc Cenedlaethol Eryri

Mantell Gwynedd

Cyngor Iechyd Gogledd

Cymru

Panel Annibynnol Cymru

ar Gydabyddiaeth

Ariannol

Archwilio Cymru

Prosiect Gerddi Cymunedol Eryri.

Bwletin yn ystod COVID-19.

Gwasanaethau Fasgwlar Adroddiad Terfynol.

Adroddiad atodol yr egwyddorion yn ymwneud ag ad-dalu costau Gofal.

Diweddariad Audit Cymru.

### **Ceisiadau Cynllunio**

**C20/0380/36RA** Addasu neu ryddhau rhwymedigaethau cynllunio cais ar gyfer rhyddhau amod 3 o ganiatâd cynllunio C19/1217/36/CC sy'n ymwneud a chynllun methodoleg ac ail-blannu. Plas Dolbenmaen, Garndolbenmaen. LL51 9RQ Dyddiad cau sylwadau - heb dderbyn hwn.

**C20/0366/36/DT** Cais ar gyfer dymchwel modurdy presennol a chodi estyniad a modurdy newydd ar ochr yr eiddo. Llecheiddior Uchaf, Bryncir. LL51 9EZ Dyddiad cau sylwadau 22/06/2020. Datgan Buddiant - bydd Edward yn arwyddo Ffurflen Datgan Buddiant yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

### **Materion Ariannol**

**Ceisiadau am arian** Dim.

### **Biliau i'w dalu**

Cyflog Clerc = £237.99  
Ffôn = £ 10.00  
Cyfrifiadur = £ 25.00  
HMRC = £ 61.63  
Veolia = £ 35.16

### **Derbyniadau**

Madog Memorials £55.00

### **Balansau Cyfrifon Banc**

Cadw £16,835.18

Cyfredol £14,411.56